# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2018

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Shaun Redmond, Alun Roberts

Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Yr Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), John Griffith (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd) R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant ), Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau), R G Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol).

**WRTH LAW**: Y Prif Weithredwr
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 2)
Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitemau 6 a 7)
Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 2)
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 2)
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitemau 4 a 5)
Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell (RR) (ar gyfer eitem 7)
Prif Swyddog Prisio (ar gyfer eitem 4)
Rheolwr Cymorth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) (ar gyfer eitem 6)
Uwch Reolwr (Cymorth Ysgol) (EC) (ar gyfer eitem 6)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth Archwilio a Risg, Uwch Archwilydd Mewnol, Y Cynghorydd Jason Zalot (Cyngor Tref Biwmares), Rhian Jones (Cadeirydd y Pwyllgor yn erbyn cau Ysgol Biwmares)

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Richard Griffiths ddiddordeb personol ond nad oedd yn rhagfarnu ar y sail bod ei ferch yn gweithio yn yr Adran Dai.

DRAFT

Datganodd y Cynghorydd Alun Roberts ddiddordeb personol ond nad oedd yn rhagfarnu oherwydd ei fod yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Biwmares.

## 2 TAI GOFAL YCHWANEGOL - ARDAL SEIRIOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys crynodeb o'r atborth a gafwyd o'r broses ymgysylltu a'r argymhellion terfynol mewn perthynas â'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol arfaethedig ar safle Ysgol Biwmares yn ardal Seiriol. 'Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llangoed ar 15 Ionawr, 2018 ac ymateb y Cyngor i'r materion a godwyd, ynghyd ag Adroddiad Dewis Safleoedd gan Uwch Swyddog Prisio'r Awdurdod ac atborth o holiadur ar-lein.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod ymrwymiad wedi ei wneud yn 2015 i ddatblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol; nodwyd safle Ysgol Biwmares wedi hynny fel y safle mwyaf addas ar gyfer y datblygiad i drigolion ardal Seiriol ac ar gyfer De'r Ynys yn gyffredinol. Cefnogodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith y bwriad i ymgysylltu yn lleol yn ward Seiriol mewn perthynas â'r cynnig ac yn benodol ynghylch lleoliad y cynllun arfaethedig.  Cynhaliwyd y broses hon yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr, 2017 a chafwyd cyfarfodydd gyda'r cynghorau tref a chymuned lleol, sesiynau galw heibio, arolwg ar-lein a chyfarfod cyhoeddus. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod yr ymatebion i'r cynnig yn gymysg ac er bod cefnogaeth gyffredinol i gynllun Tai Gofal Ychwanegol (TGY) fel ffurf o ddarpariaeth, mae anghytundeb ynghylch y lleoliad gorau ar gyfer datblygiad TGY yn Seiriol yn ogystal â phryderon am effaith y cynllun arfaethedig ar ddyfodol Cartref Preswyl Haulfre.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gyflwyniad gweledol i'r Pwyllgor yn seiliedig ar y cyflwyniad a roddwyd i'r cynghorau tref a chymuned a'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llangoed ar 15 Ionawr, 2018. 'Roedd y cyflwyniad yn mynd i'r afael â'r materion canlynol -

- Y dystiolaeth o blaid gofal ychwanegol yn hytrach na gofal preswyl. Mae gofal ychwanegol yn cefnogi bywyd annibynnol ac o ansawdd uwch ac, yn gyffredinol, mae'n rhatach i drigolion ac yn fwy cost-effeithiol i awdurdodau lleol.
- Prif nodweddion Tai Gofal Ychwanegol.
- Darpariaeth Gofal Ychwanegol yn Ynys Môn ar ffurf y Cynllun Gofal Ychwanegol a sefydlwyd ym Mhenucheldre, Caergybi a'r datblygiad a gynlluniwyd yn Hafan Cefni, Llangefni ac y rhaglennwyd y bydd yn agor yn haf 2018.
- Y safleoedd a ystyriwyd ar gyfer y cynllun Gofal Ychwanegol yn Ne Ynys Môn (ardal sy'n cynnwys ardal Seiriol) a'r sefyllfa yn dilyn gwerthuso a sgorio'r lleoliadau ar gyfer eu haddasrwydd.
- Y ddau opsiwn a ffefrir (Canolfan Gofal Dydd Biwmares ac Ysgol Biwmares) sydd ar safle Ysgol Biwmares. Ystyrir bod y rhain yn well oherwydd eu hygyrchedd i dref a mwynderau Biwmares; oherwydd eu lleoliad yng nghanol Ward Seiriol ac oherwydd bod digon o le i ddatblygu'r cynllun y tu ôl i'r ysgol pe bai'n parhau fel ysgol.
- Y model 3 ydd llawr arfaethedig ar gyfer y datblygiad ym Miwmares y dangoswyd lluniau ohono, yn ogystal ag enghraifft o fflat Tai Gofal Ychwanegol nodweddiadol
- Adborth o'r broses ymgysylltu y gellir ei grynhoi fel a ganlyn:

    - Cytundeb cyffredinol gyda'r cysyniad o Dai Gofal Ychwanegol ond nid gyda safle'r ysgol fel y lleoliad gorau;

DRAFT

- Llawer o gefnogaeth i ddefnyddio safle Haulfre, gyda llawer o’r ymatebwyr yn credu bod angen y cartref preswyl o hyd ac y dylai’r datblygiad TGY fod ar safle Haulfre hefyd.
- Gwrthwynebiad gan y gymuned i’r posibilrwydd o gau Ysgol Biwmares a gwrthwynebiad hefyd i safle'r ysgol fel yr un a ffefrir ar gyfer y datblygiad TGY, yn bennaf oherwydd ei leoliad ar ben bryn serth.
- ‘Roedd Cyngor Cymuned Cwm Cadnant o blaid datblygu cyfleuster TGY ym Miwmares ond nid o reidrwydd ar safle'r ysgol fel yr opsiwn a ffefrir, gan nodi y dylid ystyried opsiynau eraill ym Miwmares hefyd.

Yn ogystal, dangosodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fideo fer yn dwyn sylw at y mwynderau sydd ar gael yn y cyfleuster TGY yn Hafan Garnedd a agorodd yn ddiweddar ym Mhenrhosgarnedd, Bangor ynghyd â thystiolaeth a gafwyd gan rai o'r trigolion, y teuluoedd a’r staff ynghylch manteision byw yn y cyfleuster. Dywedodd y Swyddog, er ei fod yn cydnabod y pwyntiau pwysig a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu a'r cyfarfod cyhoeddus, fod argymhellion y gwasanaeth yn aros yr un fath, a hynny am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad – sef bod safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cynllun TGY yn ardal Seiriol, gan gymryd i ystyriaeth y pwyntiau a wnaed yn y broses ymgysylltu â'r gymuned, yn arbennig o ran sicrhau bod y safle’n hygyrch i bobl hŷn. Er bod llawer o bobl yn y gymuned yn ffafrio safle Haulfre, mae'n bwysig ailadrodd bod Biwmares yn fwy canolog i ardal Seiriol; mae'n fwy cyfleus o ran cael mynediad i fwynderau lleol ac mae'n rhoi cyfle gwell i ddatblygu'r safle fel hyb cymunedol. Argymhellir lleoliadau trefol yn gyson ar gyfer datblygu cyfleusterau TGY ac maent yn cefnogi’r ystyriaeth bod byw'n dda a byw'n annibynnol yn golygu cael mynediad at adnoddau. Strategaeth y Cyngor, fel y dywedir yn aml, yw cynnig mwy o opsiynau i bobl fyw'n annibynnol, gan leihau'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth gofal preswyl. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â thueddiadau cenedlaethol ac yn sicrhau annibyniaeth; byddai buddsoddiad pellach mewn darpariaeth gofal preswyl yn gam yn ôl o ran darparu model o ofal sy'n gynaliadwy i'r dyfodol. Wrth i nifer y bobl hŷn gynyddu, byddai parhau â lleoliadau preswyl fel y prif ddarpariaeth yn gam negyddol o ran gallu'r Awdurdod i reoli'r galw mewn ffordd sy'n cynnig llai o opsiynau sefydliadol i unigolion ac sy'n eu cynorthwyo i barhau i fod yn annibynnol yn y tymor hir. Mewn unrhyw broses i ddigomisiynu Cartref Preswyl Haulfre, byddai'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos gydag unigolion a'u teuluoedd i sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r ddarpariaeth TGY neu, yn dibynnu ar amgylchiadau’r unigolyn, i ddarpariaeth arall yn Ne'r Ynys. Nid yw safle'r ysgol yn berffaith ond, o’i ddylunio’n ofalus, ystyrir y gall gynnig darpariaeth dda ar gyfer yr ardal. Mae'r cynnig hefyd yn rhoi cyfle i'r Awdurdod fod yn uchelgeisiol wrth ariannu'r cynllun drwy'r Cyfrif Refeniw Tai gan olygu y gall y Cyngor reoli ei opsiynau tai a gofal ar gyfer pobl hŷn. Nid yw'r argymhelliad yn gwneud unrhyw ragdybiaeth o ran canlyniad yr ymgynghoriad ar ddyfodol yr ysgol; mae'n cynnig cyfle i gyd-leoli'r ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn gyda'r ysgol pe bai’r Cyngor yn dymuno gwneud hynny.

Rhoddwyd cyfle i Rhian Jones, Ysgol Biwmares a'r Cynghorydd Jason Zalot, Cyngor Tref Biwmares i annerch y cyfarfod. Pwysleisiodd y ddau gryfder y teimladau o fewn y gymuned yn erbyn lleoli’r cyfleuster TGY ar safle'r ysgol, a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys hygyrchedd. Awgrymwyd ganddynt y dylid buddsoddi yn Haulfre tra’n cadw'r ysgol gynradd ar agor. Yr arwyddion yw bod niferoedd y disgyblion yn Ysgol Biwmares ar gynnydd ac mae hynny’n rhoi’r argraff mai ymagwedd tymor byr sydd gan y Cyngor. ‘Roeddent yn pryderu bod y datblygiad TGY yn cael ei drafod cyn cau'r ymgynghoriad statudol ar ddyfodol yr ysgol. Ym marn y gymuned ‘roedd cysylltiad annatod rhwng y ddau.

DRAFT

Siaradodd y Cynghorwyr Carwyn Jones, Lewis Davies ac Alun Roberts fel Aelodau Lleol. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol -

- Croesawyd y buddsoddiad yn yr ardal ond nid yn y lleoliad a gynigiwyd.
- 'Roeddent yn anghytuno gyda'r asesiad mai safle Ysgol Biwmares oedd yr un mwyaf addas, ac awgrymwyd ganddynt yn hytrach y byddai Haulfre, Llangoed yn lle gwell i'r cyfleuster TGY ac y byddai'n darparu amgylchedd llawer mwy addas i bobl hŷn na safle ar ben bryn wrth Ysgol Biwmares.
- 'Roeddent yn pryderu am y ddarpariaeth ar gyfer trigolion cartref Preswyl Haulfre yn y dyfodol pe bai'n cau, gan nad yw anghenion llawer ohonynt yn addas ar gyfer byw'n annibynnol. Pwysleisiwyd ganddynt bod angen darpariaeth breswyl yn yr ardal ac mai cau'r cartref fyddai'r golled ddiweddaraf yn ne'r Ynys ar adeg pan fo adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar adolygiad o ofal iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn 2018 yn cyfeirio at y ffaith y pery angen am gartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio i ddarparu gofal hyblyg a hirdymor i'r rheini nad ydynt yn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain.
- Nodwyd ganddynt fod angen dirfawr i fuddsoddi yn nhref Biwmares ond mai tai cymdeithasol ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc sydd eu hangen yn hytrach na thai gofal ychwanegol a fydd ond yn atgyfnerthu'r argraff fod Biwmares yn dref sy'n heneiddio. Byddai modd gwneud gwell defnydd o'r tir ar safle'r ysgol sydd wedi ei glustnodi ar gyfer tai gofal ychwanegol, sef trwy ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad tai cymdeithasol, tra'n cadw'r ysgol ar ôl-troed llai.
- Y canfyddiad yn y gymuned yw bod y penderfyniad wedi ei wneud yn barod ar y mater, gan gynnwys ar ddyfodol yr ysgol. Er mwyn i'r broses ymgysylltu fod yn ystyrlon, dylai'r Cyngor wrando ar farn y gymuned a'r Aelodau Lleol a bod yn fodlon newid ymagwedd ar sail yr hyn y mae'r bobl leol yn ei ddweud. Nid yw'r mwyafrif o'r bobl yn y gymuned a fynegodd farn yn credu mai Ysgol Biwmares yw'r safle cywir ar gyfer datblygiad TGY; nid yw llawer eisiau gweld Ysgol Biwmares na Chartref Preswyl Haulfre yn cau. Mae angen i'r penderfyniad gymryd y teimladau hynny i ystyriaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnodd am eglurhad / esboniad o'r materion a nodir isod -

- Nododd y Pwyllgor mai barn y gymuned leol yw bod cysylltiad rhwng dyfodol Ysgol Biwmares a datblygiad y cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol a bod llawer o bobl yn y gymuned o'r farn fod dod i benderfyniad ar ddatblygiad y TGY cyn i'r ymgynghoriad ar ddyfodol yr ysgol ddod i ben yn golygu bod tynged yr ysgol wedi'i phenderfynu eisoes. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y rhesymeg y tu ôl i amseriad y prosesau ymgynghori a'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ddau fater. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cyfleuster TGY yn cael sylw cyn gwneud penderfyniad ar ddyfodol yr ysgol oherwydd nad yw'r naill yn dibynnu ar y llall. Mae adroddiad y Swyddog yn egluro y byddai'r cynllun TGY yn gallu symud ymlaen pe bai'r ysgol yn aros yn agored neu pe bai'n cau. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod wedi ceisio alinio'r ddwy broses ymgynghori a bod y broses ymgysylltu ar y cyfleuster TGY wedi'i chwblhau'n llawer cynt.
- Nododd y Pwyllgor y gefnogaeth gan lawer o bobl yn y gymuned leol i gadw Cartref Preswyl Haulfre. Nododd y Pwyllgor hefyd fod barn yn lleol y gellid defnyddio safle Haulfre ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y rhesymau dros beidio â dynodi Haulfre, Llangoed fel yr opsiwn a ffefrir. Dywedodd y

DRAFT

Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod safle Haulfre yn un o 7 safle a ystyriwyd ar gyfer y cynllun TGY. Fodd bynnag, mae ei bellter o fwynderau a diffyg mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus (sy'n safonau BREEAM pwysig yng nghyd-destun TGY) yn golygu nad oedd yn sgorio mor uchel â safle'r ysgol sydd yn fwy canolog i'r ardal ehangach. Dyna pam mae darpariaethau gofal ychwanegol yn aml wedi eu lleoli mewn pentrefi neu'n agos iddynt .

- Nododd y Pwyllgor y byddai'r datblygiad TGY yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y rhesymau dros ddefnyddio'r CRT fel ffynhonnell ariannu ar gyfer y cynllun a gofynnodda oes mwy o beryglon wrth ddilyn y llwybr hwn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y CRT yn gwbl ar wahân i gyllidebau eraill y Cyngor a'i fod wedi ei ddynodi ar gyfer dibenion tai Cyngor yn unig. Ni ellir croes-sybsideiddio rhwng y CRT a chyllidebau eraill y Cyngor. Mae penderfyniad y Cyngor i dynnu allan o'r system cymhorthdal CRT ac i fod yn hunangyllidol yn golygu bod ganddo fwy o ryddid ynglŷn â sut mae'n rheoli ei dai, gan gynnwys y gallu i fenthyca (er bod cap ar y swm y gellir ei fenthyca) i ddatblygu tai newydd. Bydd yn rhaid i'r cynllun TGY arfaethedig ym Miwmares fod yn hunangynhaliol h.y. bydd yr incwm rhent a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio i'w gefnogi, a dyna felly pam mae angen i'r cynllun gynhyrchu cymaint o rent â phosib trwy sicrhau nad oes unedau gwag ynddo. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod grantiau tai cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau TGY fel y rhai a ddefnyddiwyd i ariannu'r datblygiad TGY ym Mhenucheldre yng Nghaergybi wedi lleihau'n sylweddol a bod y cynllun TGY diweddaraf yn Llangefni yn cael ei ariannu gan fenthyciadau preifat a gymerwyd gan y Gymdeithas Dai. Y risg fwyaf i'r CRT fyddai nifer fawr o unedau gweigion yn y cynllun TGY; mae'r risg yn cael ei lleihau drwy leoli'r cynllun mewn lleoliad trefol.
- Nododd y Pwyllgor mai'r bwriad yw cau cartref preswyl Haulfre a bod ei drigolion, lle bo'n briodol, yn trosglwyddo i'r cyfleuster TGY newydd ym Miwmares. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a sicrwydd y bydd darpariaeth briodol a digonol hefyd ar gyfer y trigolion hynny nad oes modd i'r cyfleuster TGY gwrdd â'u hanghenion ac y byddant yn derbyn gofal addas. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad hefyd ar effaith debygol cau Cartref Preswyl Haulfre ar y ddarpariaeth a gynigir yn Gerddi Heulfre a Blaen y Coed ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y gwasanaeth yn anelu at ymestyn yr opsiynau sydd ar gael i bobl y mae eu hanghenion yn fwy difrifol e.e.  yn Garreglwyd lle mae adnodd newydd ar gyfer pobl â dementia. Nid yw strategaeth y gwasanaeth yn dweud na fydd byth angen darpariaeth gofal preswyl, ond er yn cydnabod hyn, mae'r strategaeth yn ceisio darparu mwy o opsiynau i ganiatáu i bobl fyw'n annibynnol e.e. TGY. Bydd darpariaeth ar gyfer pobl ag anghenion arbenigol trwy ofal preswyl arbenigol, trwy ofal nyrsio a / neu ofal nyrsio EMI - dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus y bydd y mathau hyn o ddarpariaeth yn parhau, er efallai na fyddent ar gael o fewn cymuned uniongyrchol yr unigolyn. Mae'r gwasanaeth anabledd dysgu yn cael ei adolygu'n gyffredinol, a hynny gyda'r amcan o sefydlu'r model gorau ar gyfer darparu gwasanaeth anabledd dysgu; felly byddai'n gynamserol i geisio rhagweld canlyniad yr adolygiad mewn perthynas â  Gerddi Haulfre a Blaen y Coed.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y gwelliannau a ganlyn i'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog -

- Oherwydd cryfder y teimlad ymysg y gymuned leol ac Aelodau Lleol, fod y Cyngor yn ailystyried sefydlu cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol ar safle Haulfre, Llangoed

- Ymgorfforri Cartref Preswyl Haulfre o fewn y cynllun er mwyn darparu ar gyfer y rheini nad ydynt bellach yn gallu byw'n annibynnol
- Oherwydd prinder tir ar gyfer tai i bobl ifanc ym Miwmares, datblygu safle Ysgol Biwmares ar gyfer tai cymdeithasol tra'n cadw ysgol lai.

Hysbyswyd y Pwyllgor, ac fe nododd, gan fod yr ymgynghoriad statudol ar ddyfodol Ysgol Biwmares yn parhau i redeg, nid yw'n gallu ystyried unrhyw gynigion sy'n cyfeirio at yr ysgol gynradd. O'r herwydd, tynnodd y Cynghorydd Lewis Davies y cyfeiriad at yr ysgol o'r trydydd cynnig a wnaed ganddo.

Yn y bleidlais ddilynol, cafodd y cyntaf a'r trydydd o'r gwelliannau uchod eu cario gan fwyafrif o aelodau'r Pwyllgor. O argymhellion y Swyddog, derbyniodd y Pwyllgor bod y cynllun TGY yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, PENDERFYNODD y Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith -**

- **Oherwydd cryfder teimladau'r gymuned leol a'r Aelodau Lleol, fod y Cyngor yn ailystyried sefydlu'r datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol ar safle Haulfre, Llangoed.**
- **Oherwydd prinder tir ar gyfer tai i bobl ifanc ym Miwmares, defnyddio safle Ysgol Biwmares i ddatblygu tai cymdeithasol.**
- **Ariannu'r datblygiad TGY drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**3 CYNLLUN GWELLA'R GWASANAETHAU PLANT - ADRODDIAD CYNNYDD**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth Plant. 'Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn y meysydd ffocws canlynol -

- Ailstrwythuro'r Gwasanaeth
- Recriwtio a Chadw
- Diweddaru Polisïau a Chanllawiau, gan gynnwys y Strategaeth Gweithlu
- Sicrhau Ansawdd
- Gweithio gyda Phartneriaid

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod llawer iawn o waith wedi'i wneud hyd yma a bod gwaith yn parhau. Ynghlwm yn Atodiad 3 'roedd hunanasesiad manwl sy'n crynhoi'r cryfderau, yr hyn a gyflawnwyd a'r meysydd sydd ar ôl i'w gwella yn erbyn pob un o'r argymhellion yn adroddiad Arolygu AGGCC wedi iddo arolygu Gwasanaethau Plant y Cyngor ym mis Tachwedd, 2016. Mae llythyr gan Bennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC dyddiedig 11 Ionawr, 2018 yn nodi, er bod y newid wedi bod yn araf, bu gwelliant cadarnhaol graddol yn gyffredinol ac y gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r strwythur gwasanaeth newydd. Mae'r llythyr yn cydnabod bod yr ymrwymiad corfforaethol i sicrhau gwelliant yn y Gwasanaethau Plant yn parhau a bod mwy o graffu a herio gan aelodau etholedig wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae'r Rheoleiddiwr yn

DRAFT

datgan y bydd yn parhau i fonitro cynnydd cyn cynnal adolygiad mwy ffurfiol trwy ailarolygiad yn nes ymlaen yn 2018.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ei fod yn falch o weld bod llythyr y Rheoleiddiwr yn cydnabod y cynnydd sy'n parhau i gael ei wneud gan y Cyngor i weithredu argymhellion yr arolygiad ac i wella ei Wasanaeth Plant a Theuluoedd. Dywedodd y Swyddog, wrth gydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto, nad yw newid ymarfer yn digwydd dros nos. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddo ganolbwyntio arnynt ac mae'n blaenoriaethu ar y sail honno.

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori diweddariad ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. 'Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r materion sydd wedi derbyn sylw gan y Panel ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, 2017 ynghyd â fersiwn wedi'i ddiweddaru o raglen waith y Panel hyd at fis Mai 2018.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Griffiths, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel, ei fod yn ymddangos fod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yma. Fodd bynnag, hoffai'r Panel ddwyn sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol at y ffaith, er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu'r strwythur staffio diwygiedig, fod gweithwyr asiantaeth yn parhau i lenwi rhai swyddi gwaith cymdeithasol. Mae angen mynd i'r afael â hyn cyn gynted ag y bo modd.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a chymerodd sicrwydd o'r atborth a gafwyd gan y Panel a'r meysydd yr oedd wedi rhoi sylw iddynt yn ystod y cyfnod adrodd fel y nodir yn adran 2.2 yr adroddiad. Nododd y Pwyllgor fod y Panel wedi gwneud sylw y bu gostyngiad sylweddol yn nibyniaeth y gwasanaeth ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gweigion ond bod staff asiantaeth yn parhau i lenwi 4 swydd gwaith cymdeithasol a bod angen i'r swyddi hyn gael eu llenwi gan staff parhaol. Felly, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa recriwtio, yn enwedig ynghylch a oedd y gwasanaeth wedi cymryd y cam a awgrymwyd eisoes gan y Pwyllgor i fod yn fwy rhagweithiol yn ei ddull recriwtio ac i hysbysebu'n ehangach.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd fod y Cyngor wedi bod yn defnyddio 'The Guardian' (ar-lein) a 'Community Care' (cyfnodolyn gwaith cymdeithasol) i hysbysebu swyddi gwag a'u bod yn ffynonellau cydnabyddedig ar gyfer hysbysebu a recriwtio i swyddi gwaith cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau cynnig lleoliadau blasu gyda'r nod o ennyn diddordeb disgyblion chweched dosbarth er enghraifft, ac mae dau aelod o staff mewnol yn dilyn y rhaglen hyfforddeiaeth i fod yn weithwyr cymdeithasol cymwys a gobeithir y gellir gwneud hyn eto yn y blynyddoedd i ddod. Mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn broblem genedlaethol ac mae llawer o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn dibynnu i wahanol raddau ar staff asiantaeth. Yn ychwanegol, mae 5 o staff y gwasanaeth wedi'u hyfforddi fel llysgenhadon gofal cymdeithasol i fynd allan i golegau lleol a dosbarthiadau chweched dosbarth i siarad am waith gofal cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor -**

- **Yn cymryd sicrwydd o'r adroddiad cynnydd ac yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ac yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd.**
- **Yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a'i fod yn ymddangos fod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yma.**

DRAFT

- **Yn nodi pryder y Panel bod rhai swyddi gwaith cymdeithasol yn parhau i gael eu llenwi gan staff asiantaeth ac yn nodi hefyd fod y gwasanaeth yn cymryd camau i ehangu ac amrywio ei ddull recriwtio.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAUI GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**4 Y STAD MÂN-DDALIADAU - MATER A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI GAN Y CYNGOR LLAWN**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). 'Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa mewn perthynas â stad mân-ddaliadau'r Cyngor ar ôl cwblhau'r Cynllun Gwella 5 mlynedd a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r dirywiad yng nghyflwr y stad wledig.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff bod Stad Mân-ddaliadau'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnwys 98 o ddaliadau ac 'roedd dadansoddiad ohonynt yn adran 5.13 yr adroddiad. Mae 51% o'r daliadau ar gytundebau dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu Denantiaethau Busnes Fferm mwy modern, tra bod y 49% sy'n weddill ar denantiaethau sy'n fwy caeth dan Deddf Daliadau Amaethyddol 1996. Wrth i ddaliadau ddod yn wag, fe'u trosglwyddir i'r cytundeb mwy newydd dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol sy'n gytundebau tymor penodol ar renti marchnad agored. Ers cychwyn ar y rhaglen wella, gwelwyd cynnydd o £120k yn yr incwm rhent a gynhyrchir gan y daliadau.

Dywedodd y Prif Swyddog Prisio ei fod o'r farn bod y Rhaglen Wella wedi bod yn llwyddiant yn gyffredinol; cynyddwyd gwerth y stad yn sylweddol a llwyddwyd i wella cyflwr cyfran fawr o'r stad.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Pwyllgor broffil oed tenantiaid stad mân-ddaliadau'r Cyngor a nododd yn arbennig y duedd demograffig sy'n dangos mai dim ond 10% o'r tenantiaid sy'n 40 oed neu'n iau, a bod 30% rhwng 51 a 60 oed a 25% rhwng 61 a 70 oed. Er ei fod yn derbyn y rhesymau am hynny fel y nodwyd hwy yn yr adroddiad, gofynnodd a oes arfer gydnabyddedig ymhlith awdurdodau Cymru y gallai'r Cyngor fanteisio arni i hyrwyddo symudedd a chynyddu cyfleoedd ar gyfer tenantiaid newydd. Dywedodd y Prif Swyddog Prisio bod adroddiad Llywodraeth Cymru - Ffermydd Sirol: Ffordd Ymlaen - yn tynnu sylw at y ffordd y mae Ynys Môn yn rheoli ei stad wledig fel un gadarnhaol a rhagweithiol o gymharu â'r dull a fabwysiadwyd gan awdurdodau eraill yng Nghymru nad ydynt mor rhagweithiol.
- Nododd y Pwyllgor y cafwyd trafodaeth yn y Cyngor Llawn am beidio â gwerthu mân-ddaliadau heb ganiatâd y Cyngor. Felly, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar yr ymagwedd bresennol tuag at werthu mân-ddaliadau. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod yr hawl i werthu yn aros gyda'r Aelod Portffolio ond bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion. Bu angen cael gwared ar fân-ddaliadau i gynhyrchu'r cyfalaf i ariannu'r rhaglen wella ac o ran rheoli'r stad - er mwyn cael gwared o'r asedau a oedd yn tanberfformio ac asedau nad oedd eu hangen mwyach.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â sefyllfa gyfredol Stad Mân-ddaliadau'r Cyngor ar ôl cwblhau'r Rhaglen Wella 5 mlynedd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

DRAFT

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyriwyd a PHENDERFYNWYD dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 6 ar y sail y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

**6 CLUDIANT YSGOL – MATER A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Dysgu a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Cyfeiriwyd y mater i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn sgîl adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gludiant ysgol a oedd wedi arwain at farn Sicrwydd Cyfyngedig sy'n golygu bod gwendidau sylweddol yn y system o reolaethau mewnol ar gyfer Cludiant Ysgol.

Dywedodd Rheolwr Cymorth y Gwasanaeth Priffyrdd y cyflwynwyd adroddiad adolygu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Gludiant Ysgol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 21 Medi, 2017. 'Roedd yr adroddiad yn cynnwys Cynllun Gweithredu yn dwyn sylw at 16 o eitemau yr oedd gofyn mynd i'r afael â nhw dros gyfnod o amser, yn ôl blaenoriaeth. Yn ogystal â'r cynllun gweithredu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, cyfarfu'r Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151, y Pennaeth Dysgu a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ym mis Awst, 2017 i sefydlu rhaglen o gamau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi penodi Ymgynghorydd i weithio fel Rheolwr Prosiect ar y mater hwn. Mae'r Gwasanaeth Dysgu hefyd yn elwa o amser penodol gan swyddog yn y tîm Gwasanaeth Trawsnewid sydd â gwybodaeth arbenigol am systemau TG ac a fydd yn gweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru sydd eisoes yn defnyddio'r feddalwedd ONE y mae Ynys Môn hefyd wedi tanysgrifio iddi. Mae'r system ONE wedi'i dylunio fel y gellir tracio llwybrau bysys a thacsis i sicrhau bod y llwybrau gorau posib yn cael eu mabwysiadu er mwyn darparu gwell gwerth am arian.

Aeth y Swyddog ymlaen i dynnu sylw at y cynnydd a wnaed ers Medi, 2017 fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn y cynllun gweithredu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu y gofynnwyd am adolygiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol o drefniadau cludiant ysgol ar ôl gorwariant ar wasanaethau tacsis i ysgolion yn 2016/17. Mae'r gwasanaeth bws ysgol yn parhau i wario o fewn y gyllideb ac o ran gwariant y pen hwn yw'r gwasanaeth rhataf o'i fath yng Nghymru. Mae'r galw am gludiant i'r ysgol yn newid yn gyson a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer sydd angen gwasanaeth tacsi; o ganlyniad, cynhelir adolygiad o'r polisi cludiant ysgol i ganfod a yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n ddiangen mewn rhai achosion neu'n cael ei ddyblygu. Fodd bynnag, mae gwaith a wnaed dros y misoedd diwethaf yn golygu bod y gwasanaeth bellach yn gwybod mwy am natur a maint y galw am gludiant ac mae'n gweithio ar sefydlu'r systemau fel y gall reoli'r galw'n well yn unol â gofynion statudol. Mae gwaith ar werthuso a thracio llwybrau bysus a thacsis wedi dechrau ac o ganlyniad, rhagwelir y bydd y gorwariant yn lleihau eleni. Mae hyn cyn i'r gwaith ddechrau ar y systemau. Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi derbyn cyllid trwy Gynllun Buddsoddi i Arbed y Cyngor i wella prosesau busnes. Defnyddir yr arian hwn i sefydlu system i gynorthwyo i blotio llwybrau bysus a thacsis yn ddigidol i sicrhau defnydd darbodus o'r gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn faniwal ar hyn o bryd. Mae peth gwaith glanhau data i'w wneud cyn y gellir defnyddio'r feddalwedd ONE yn llawn i sicrhau bod y gronfa

ddata y bydd y system yn ei defnyddio yn gyfredol ac yn gywir. Disgwylir y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf eleni gyda'r bwriad o weithredu'r system ONE yn llawn erbyn Medi, 2018.

`Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed ers cyflwyno adroddiad adolygu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ym Medi, 2017. Nododd a chroesawodd y pwyllgor y camau a gymerwyd i wneud y gwasanaeth cludiant ysgol yn fwy effeithlon a chost-effeithiol.
- Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad ar y camau a gymerwyd i sicrhau bod elfennau'r system cludiant ysgol sy'n ymwneud â diogelu yn cydymffurfio â'r gofynion ac yn gyfredol. Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo drefniadau mewn perthynas â Gwiriadau Datgelu a Gwahardd ar gyfer gwasanaethau bysus a thacsis o ran ardystio, adnewyddu a gwiriadau ar hap. Yn ogystal, 'roedd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi trefnu sesiynau i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu ar gyfer gweithredwyr bysus a thacsis. Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod trothwyon diogelu'r Cyngor yn briodol uchel a bod ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i wella'r trefniadau diogelu cymaint ag y bo modd.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sicrwydd a roddwyd ac roedd yn fodlon bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Gwasanaeth Dysgu yn cymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o gludiant ysgol a'u bod yn rhoi mesurau ar waith i wella effeithlonrwydd, atebolrwydd a gwerth am arian y gwasanaeth cludiant ysgol. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad pellach ar gynnydd ar gyfer ei gyfarfod ym mis Mehefin, 2018 cyn cwblhau'r cynllun gweithredu ym Medi, 2018.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor -**

- **Yn nodi'r Cynllun Gweithredu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Gludiant Ysgol dyddiedig Medi, 2017.**
- **Yn nodi ac yn fodlon bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad Archwilio Mewnol a bod ymrwymiad gan y ddau wasanaeth i gwblhau'r cynllun gweithredu erbyn Medi, 2018**
- **Yn nodi bod y Bwrdd Trefniadau Diogelu Corfforaethol eisoes wedi ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr, 2017 ac yn monitro'r materion diogelu.**
- **Yn nodi'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod cynllun gweithredu yn cael ei lunio a'i fonitro a'i oruchwylio gan Dîm Prosiect.**
- **Yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol fonitro'r Cynllun Gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan y gwasanaeth AM broses dilyn-i-fyny a monitro i sicrhau bod y camau rheoli mewn perthynas â phob adroddiad â barn Sicrwydd Cyfyngedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac y bydd Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gynnydd o fewn yr amserlen benodol y cytunwyd arni.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWYD: Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cael diweddariad ar gynnydd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, 2018 cyn cwblhau'r Cynllun Gweithredu ym mis Medi, 2018**

DRAFT

*‘Roedd y Pwyllgor mewn sesiwn agored ar gyfer yr eitem ganlynol*

**7 EITEM ER GWYBODAETH - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH LLYFRGELL AM 2016/17**

Cyflwynwyd er gwybodaeth y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2016/17 yn nodi perfformiad yn erbyn pumed Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod raid i’r Cyngor, yn unol ag adain polisi MALD Llywodraeth Cymru (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd), gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar ei berfformiad o ran cyflawni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth yn ystod 2016/17 ac fe'i cyflwynwyd i MALD ar ffurf ddrafft oherwydd yr amserlen asesu. Mae'r Asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda a'i fod wedi cwrdd â 17 o'r 18 o hawliau craidd yn llawn, gan gynnal ei berfformiad felly o 2015/16. O'r 7 dangosydd ansawdd, cyflawnodd Ynys Môn 4 ohonynt yn llawn a 3 yn rhannol, sy'n berfformiad tebyg i 2015/16. Fodd bynnag, mae MALD yn mynegi pryderon mewn rhai meysydd, yn enwedig mewn perthynas â staffio. Mae perfformiad yn debyg iawn i'r llynedd, gyda rhai gwelliannau nodedig yn y lefelau defnydd. Mae'r lefelau staffio isel yn parhau i fod yn destun pryder yn enwedig yn ystod cyfnod o gynllunio newidiadau i’r dyfodol. Er gwaethaf hynny, dywedodd y Swyddog fod y gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal ansawdd y gwasanaeth ac wrth i ni symud tuag at chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cymru, fod y broses drawsnewid yn argoeli’n dda o ran gallu’r gwasanaeth i gynnal perfformiad yn erbyn y safonau hynny.

Cydnabu'r Pwyllgor berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell ar adeg anodd ac mewn cyfnod o drawsnewid.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor -**

- **Yn awgrymu bod yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2016/17.**
- **Yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Llyfrgelloedd Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2016/17 a'r materion sy'n codi ynddo.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT